# Taflen Ffeithiau ar Orfodaeth Gynllunio

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn sôn am Orfodaeth Gynllunio. Dylid ei darllen gyda'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.

Y Cyngor yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer ei ardal (mewn rhai ardaloedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n gwneud hyn). Mae awdurdodau cynllunio'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a gweithredu ar amrywiol faterion cynllunio. Rhaid iddynt weithio o fewn y gyfraith, canllawiau'r llywodraeth ac o fewn polisi'r awdurdod ei hun. Efallai y bydd yr Ombwdsmon yn gallu eich helpu gyda'ch cwyn yn erbyn awdurdod cynllunio.

## Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Bydd yn gallu:

- edrych ar gŵyn eich bod wedi cael eich effeithio gan dorri rheolau cynllunio os credwch na ddeliodd y Cyngor â materion yn iawn.

- cadarnhau bod Cyngor wedi cymryd camau gorfodi yn deg a thrwy ddilyn y rheolau.

- edrych i faterion fel oedi afresymol yn asesu achos neu'n gweithredu, lle na chafodd amodau cynllunio eu dilyn, methu â chadw cofnodion priodol a chyfathrebu gwael.

- gofyn i'r Cyngor egluro ei benderfyniad i gymryd camau gorfodi er mwyn sicrhau bod swyddogion wedi ystyried yr holl ffeithiau sy'n berthnasol.

## Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni fydd yn gallu:

- gorfodi Cyngor i gymryd, neu i beidio â chymryd camau gorfodi.

- ni fyddai fel arfer yn ymchwilio i gŵyn bod camau gorfodi wedi cael eu cymryd yn eich erbyn a chithau â hawl i apelio.

## Materion i gadw mewn cof

Mae cryn dipyn o ddatblygu'n gallu digwydd heb ganiatâd cynllunio felly efallai na fydd angen i gyngor weithredu.

Gall cyngor ddewis peidio â chymryd camau gorfodi os yw'n meddwl mai dyna'r peth iawn i'w wneud.

Mae canllawiau'r llywodraeth yn annog cynghorau i roi cynnig ar ddulliau anffurfiol o ddelio â phroblemau cynllunio. Fel rheol, byddai'n cymryd camau gorfodi ffurfiol yn niffyg unrhyw ateb arall.

Mae canllawiau'r llywodraeth yn annog cynghorau i ystyried y posibilrwydd o ofyn i ddatblygwyr gyflwyno ôl-gais os yw'r caniatâd cynllunio wedi cael ei dorri.

Efallai y bydd gan y cyngor bolisi gorfodaeth ysgrifenedig a dylech gael darllen y polisi hwn, neu efallai y bydd ar ei wefan.

## Gwybodaeth bellach

Gall **Cymorth Cynllunio Cymru** roi gwybodaeth ddefnyddiol ar faterion cynllunio ichi. Gallwch eu ffonio ar **029 2048 5765** neu fynd i'r we yn www.planningaidwales.org.uk

Mae gwybodaeth am gynllunio hefyd ar gael yn http://www.planningportal.gov.uk/wales/public

Bydd gwefan y Cyngor ei hun hefyd efallai'n cynnwys gwybodaeth am rai materion cynllunio.

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a di-duedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymell – ond mewn gwirionedd maent yn gwneud hynny bron bob tro.

Mae enghreifftiau o achosion yr edrychodd yr Ombwdsmon arnynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombudsman-wales.org.uk

**Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:**

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ